

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG

Teitl: Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru)

Dyddiad: 2 Hydref 2018

gan: Elin Jones AC, Llywydd, fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad

Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno i gyflwyno cynnig heddiw i'w drafod yr wythnos nesaf (10 Hydref) yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo ei benderfyniad i gyflwyno Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru). Nod y Bil hwn fyddai defnyddio'r pwerau a ddatganolwyd i'r Cynulliad o dan Ddeddf Cymru 2017 i newid enw'r Cynulliad Cenedlaethol, ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, diwygio'r gyfraith sy'n ymwneud â threfniadau anghymhwys, a gwneud newidiadau eraill i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad. Bwriad y Comisiwn yw y dylid gweithredu'r newidiadau hyn erbyn 2021.

Mae penderfyniad y Comisiwn i gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn rhan o becyn o ddiwygiadau sy'n cael eu hystyried i wneud y Cynulliad Cenedlaethol yn ddeddfwrfa fwy effeithiol, hygyrch ac amrywiol. Yn fy natganiad i'r Cynulliad ar 18 Gorffennaf, nodais ein dull arfaethedig o ymdrin â'r pecyn diwygio. Mae llawer o'r diwygiadau hyn yn seiliedig ar argymhellion a wnaeth y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad yn ei adroddiad: [Senedd sy'n gweithio i Gymru](#).

Mae angen cefnogaeth eang ymysg yr Aelodau ar gyfer pob elfen o'r pecyn hwn os yw i gael ei gyflwyno. O ran rhai agweddau, mae angen gwaith pellach i gyflawni hyn. Er enghraifft, mae Aelodau a phleidiau gwleidyddol yn dal i ystyried maint y Cynulliad yn y dyfodol, sut y dylid ethol Aelodau, a sut y gellid cynyddu amrywiaeth. Os gwneir cytundeb ar y ffordd ymlaen, bwriad y Comisiwn yw y bydd yr elfennau hyn yn ffurfio ail gam y rhaglen ddiwygio yn ystod tymor y Cynulliad hwn.

Yn y cyfamser, yn dilyn trafodaethau hir â rhanddeiliaid allweddol a dau ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r Comisiwn yn fodlon bod digon o gefnogaeth i symud ymlaen â'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth.

Mae'r [adroddiad ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad ynghylch newid enw'r sefydliad](#) eisoes wedi'i gyhoeddi, fel y mae a [crynodeb o ymgynghoriad y Comisiwn ar ddiwygio etholiadol](#). Mae canfyddiadau'r ail ymgynghoriad hwnnw wedi cael eu cyhoeddi'n llawn heddiw mewn [adroddiad](#), a fydd, rwy'n siŵr, yn ddefnyddiol i'r Aelodau yn eu trafodaethau.

Y cam nesaf i Gomisiwn y Cynulliad fydd ceisio cefnogaeth yr Aelodau i gyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn 2019 i ganiatáu i gam cyntaf diwygio'r Cynulliad gael ei weithredu cyn etholiad 2021.

Nod y ddeddfwriaeth hon fydd ceisio cyflawni pedwar amcan allweddol:

### 01. Newid enw'r Cynulliad i Senedd Cymru / Welsh Parliament

Bydd newid enw'r sefydliad yn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ei sefyllfa gyfansoddiadol ac yn helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl a chyfrifoldebau'r ddeddfwrfa. Cytunodd y mwyafrif a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y mater mai 'Senedd Cymru/ Welsh Parliament' sy'n disgrifio rôl a chyfrifoldebau'r ddeddfwrfa orau. Y bwriad fyddai i'r enw newydd ddod i rym cyfreithiol ym mis Mai 2020 i



sicrhau bod y cyhoedd yn gyfarwydd ag ef cyn etholiad nesaf y Cynulliad yn 2021. Er mwyn lleihau costau, fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi penderfynu na fydd unrhyw newid ar raddfa fawr i logo'r Cynulliad.

Yn ychwanegol at newid enw'r sefydliad, bydd newidiadau cysylltiedig, er enghraifft yr ôl-ddodiad sy'n ymddangos ar ôl enwau'r Aelodau. Mae'r Comisiynwyr yn parhau i ystyried y mater hwn.

## **02. Gostwng yr oedran pleidleisio i 16 yn effeithiol o etholiad y Cynulliad yn 2021**

Nod y Comisiwn yw grymuso, ennyn diddordeb a chymhell pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd yng Nghymru. Mae'r Comisiwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid etholiadol i roi'r trefniadau gofynnol ar waith ar gyfer ymestyn yr etholfraint i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed a gweithrediad llyfn etholiadau'r Cynulliad yn 2021

Fel y gŵyr yr Aelodau, barn y Comisiwn yw y byddai angen gwneud pob ymdrech i godi ymwybyddiaeth o estyniad i'r etholfraint, er mwyn annog y lefel uchaf bosibl o gyfranogiad ymhlith pobl ifanc. Bydd y Comisiwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i ymgysylltu â phobl ifanc yn y newid cadarnhaol hwn.

## **03. Egluro a diwygio'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud ag anghymhwysio rhag bod yn Aelod Cynulliad**

Mae'r Comisiwn yn bwriadu gweithredu argymhellion ar gyfer newid deddfwriaethol a wnaed gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol y Pedwerydd Cynulliad. Byddai'r newidiadau hyn yn rhoi eglurder i ddarpar ymgeiswyr am eu cymhwysiaeth i sefyll ar gyfer eu hethol, a thrwy addasu'r pwynt lle y byddai'r rhan fwyaf o anghymhwysio yn dod i rym, byddai'n galluogi mwy o bobl i sefyll heb orfod ymddiswyddo yn gyntaf, fel eu bod ond yn gorfod ymddiswyddo os cânt eu hethol. Byddai'r diwygiadau hefyd yn egluro anghymhwysio Arglwydd Raglawiaid ac Uchel Siryfi ac, er mwyn osgoi gwrthdaro buddiannau, byddai'n gwahardd aelodau o Dŷ'r Arglwyddi oni bai eu bod yn cymryd absenoldeb ffurfiol o San Steffan. Byddai'r trefniadau anghymhwysio newydd yn dod i rym o etholiad nesaf y Cynulliad.

## **04. Gwneud newidiadau i drefniadau etholiadol a threfniadau mewnol y Cynulliad**

Pe bai Comisiwn y Gyfraith yn gwneud argymhellion i resymoli'r cyfreithiau cyfredol sy'n ymwneud ag etholiadau, byddai darpariaethau'n sicrhau y gall argymhellion o'r fath, y gellir eu hystyried yn ddymunol yng Nghymru, gael eu gweithredu ar gyfer etholiadau'r Cynulliad ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Gallai hyn ganiatáu ar gyfer datblygu fframwaith deddfwriaethol cydlynol a sicrhau cysondeb ar draws gwahanol etholiadau.

Byddai'r dyddiad terfynol ar gyfer cyfarfod cyntaf y Cynulliad ar ôl etholiad yn cael ei ymestyn o saith diwrnod i bedwar diwrnod ar ddeg, yn unol â'r trefniadau yn Senedd yr Alban. Y bwriad yw ymestyn y cyfleoedd ar gyfer trafodaethau a negodiadau rhwng pleidiau gwleidyddol ar ôl yr etholiad, cyn gorfod gwneud penderfyniadau pwysig.

Gwneir darpariaeth hefyd i ddileu amwysedd deddfwriaethol cyfredol ac egluro bod gan Gomisiwn y Cynulliad y pŵer i godi tâl am ddarparu gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â'i swyddogaethau.

Pe bai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu y dylai'r Comisiwn gyflwyno Bil Senedd Cymru ac Etholiadau (Cymru), byddai'n destun prosesau craffu deddfwriaethol llawn y Cynulliad a byddai angen mwyafrif helaeth yn ei gyfnod deddfwriaethol terfynol, gan olygu y byddai angen i o leiaf 40 Aelod bleidleisio o blaid y Bil. Gofynnaf i'r Pwyllgor Busnes ystyried ffordd o graffu deddfwriaethol a fyddai'n



caniatáu i bob Aelod, a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru, ymgysylltu'n llawn yn y ddadl ynghylch egwyddorion y Bil a'i ddarpariaethau a goblygiadau. Fel sy'n ofynnol gan y Rheolau Sefydlog, bydd y Memorandwm Esboniadol, a gaiff ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Bil wrth ei gyflwyno, yn cynnwys yr amcangyfrifon gorau o'r costau a'r arbedion posibl a allai fod yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth, ac asesiadau o effaith y cynigion ar gydraddoldeb a chynhwysiant, ieithoedd swyddogol y Cynulliad, y system gyfiawnder, hawliau plant a meysydd perthnasol eraill.

Mae'r Comisiwn yn ddiolchgar i bawb sy'n parhau i ymgysylltu â ni ar y materion hyn. Credaf, pe bai'r ddeddfwriaeth hon yn cael ei gweithredu, y bydd yn rhoi llais cryfach i bobl ifanc yn nyfodol ein cenedl, gan baratoi'r ffordd a fydd yn gwella cyfranogiad ein cenhedlaeth nesaf yn ein democratiaeth a'n senedd wrth iddi ddechrau ar drydedd degawd o wasanaethu pobl Cymru.

